
GWRTH FWLIO
crist
unig
ofnus
drysu
poeni
Ysgol Gymunedol Peniel
BWLIO
Peidiwch a bwlio!!!
hyfryd
Caredig
Cefnogaeth
Parch
Bod yn ffrind da
helpu

<u>**Polisi Bwlio Ysgol Peniel**</u>

ysgrifennwyd gan
Y Cyngor Ysgol Medi 2023

Beth yw Bwlio?
Bwlio yw pan mae grŵp neu un person yn pigo neu yn nychu person arall yn rheolaidd neu drwy'r amser ar bwrpas

Mathau o fwlio:
<u>Bwlio ffisegol</u> - pan mae plant yn ymladd, er enghraifft yn gwthio, dyrnu, cnoi, bwrw, pinsio a chicio.

<u>Bwlio emosiynol</u> - pan mae person yn gwneud ystumiau cas neu'n galw enwau cas arno chi neu'n dweud pethau amharchus ac yn gwneud i chi deimlo'n drist iawn ac yn eich tynnu i lawr.

<u>Bwlio seibr</u> - mae hyn yn digwydd pan mae person yn gas i chi ar y we neu drwy gyfryngau cymdeithasol er enghraifft wrth ddanfon e-bost cas atoch neu'n danfon neges testun cas, negeseuon cas mewn grŵp 'chats', gyrru lluniau cas drwy'r amser i chi.

Beth i'w wneud os ydych yn cael eich bwlio?
1. Dweud wrth oedolyn yn syth
2. Dweud wrth eich ffrind.
3. Dweud wrth rhywun rydych yn ymddiried ynddyn nhw
4. Peidio a chadw'r hyn sy'n digwydd i chi'ch hun.

Canlyniad i fwlio yn yr ysgol:
1. Bydd yr athrawon yn ceisio dod o hyd i'r gwir a chasglu'r dystiolaeth drwy siarad â'r bobl berthnasol.
2. Bydd y Bwli yn colli breintiau megis amser aur ac yn aros mewn am ddiwrnod cyfan, byddant hefyd yn cael rhybudd wrth y pennaeth.
3. Yn dibynnu ar ddifrifwch yr achos bydd y bwli yn aros mewn am wythnos gyfan efallai - os mai dyma'r sefyllfa, bydd y pennaeth yn ffonio mam a dad er mwyn egluro beth sydd wedi digwydd.
5. Hefyd, yn yr achos yma bydd yn rhaid i'r bwli ysgrifennu llythyr ymddiheuriad i'r dioddefwr.
6. Bydd yn rhaid i'r bwli ddarllen y llythyr i'r dioddefwr o flaen aelod o staff
7. Mewn achosion difrifol iawn lle mae'r bwli wedi cael nifer o rybuddion (3 rhybudd) , ni fydd yn cael dod ar dripiau ysgol.
8. Os fydd y bwli yn parhau yna caiff ei g/wahardd o'r ysgol.

Cytundeb rhwng y plant eu bod yn gytuno gyda'r polisi

Darcey Beca J Emilia, Marged Ellie Heth